



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu

Ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau  
neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru



Ionawr 2022

Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu

Ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru

---

## Pennod / Cynnwys

---

Ynglŷn â'r canllaw hwn	2
Gwneud trefniadau diogelu	5
Cael gafael ar gyngor a chymorth	10

# 1. Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r Cod Ymarfer Diogelu hwn yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threfniadau diogelu.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Gwyddom y bydd unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau yn gweld manteision clir dilyn y cyngor hwn. Bydd hyn yn dangos bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Ledled Cymru, mae unigolion, grwpiau a sefydliadau yn cynnig ystod gyfoethog ac amrywiol o weithgareddau a gwasanaethau i bobl eu mwynhau. Gall hyn amrywio o grwpiau cymdeithasol mwy anffurfiol i weithgarwch sy'n cynorthwyo plant neu oedolion i fwynhau chwaraeon, meithrin sgiliau newydd neu rannu diddordeb, i weithgarwch a gynigir gan grwpiau ffydd.

Mae'r cyfleoedd hyn yn hanfodol i gefnogi lles pobl yng Nghymru, gan helpu pobl i deimlo'n feddyliol ac yn gorfforol dda a mwynhau cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol ag eraill.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pawb sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i **blant (hyd at 18 oed)** ac **oedolion (18 oed a throsodd)** yn deall yr angen i gael trefniadau diogelu ar waith i sicrhau nad oes unrhyw un yn wynebu risg o niwed.

Mae diogelu yn golygu cadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed a gwybod beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod [plentyn](#) neu [oedolyn](#) yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Lle mae lleoliadau neu sefydliadau eisoes wedi'u cofrestru, eu rheoleiddio a'u harchwilio, dylent fodloni eu gofynion statudol a dilyn trefniadau diogelu cyfredol.

Mae rhai unigolion, grwpiau a sefydliadau yn gysylltiedig â chyrrff cenedlaethol sy'n cynnig cymorth gyda diogelu, maent wedi'u cofrestru gyda'r cyrrff hyn, neu'n cael eu hariannu ganddynt. Dylai hyn gynnwys polisïau, hyfforddiant a phrosesau i sicrhau bod pobl yn ddiogel pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu wasanaethau. Mae llawer o gynlluniau achredu diogelu, marciau ansawdd a chodau yn bodoli ar gyfer mathau penodol o leoliadau (lleoedd lle cynigir gweithgareddau).

Mae deddfwriaeth ar waith yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddiogelu pobl rhag niwed. Lle caiff gwasanaethau eu comisiynu (ariannu) gan gyrff cyhoeddus, mae gofynion cytundebol i gael trefniadau diogelu ar waith.

Fodd bynnag, ni fydd pob unigolyn, grŵp neu sefydliad yn gallu cael gafael ar gymorth i weithredu'n ddiogel fel hyn. Mae'n bosibl na fydd rhai yn sylweddoli pa mor bwysig yw cael trefniadau diogelu ar waith, ac mae'n bosibl na fydd rhai yn gwybod ble i droi am gyngor a chymorth.

## **Pam mae'r cyngor hwn yn bwysig?**

- Mae cam-drin, esgeuluso a niwed yn cael effaith ddinistriol ar blant ac oedolion. Yn yr achosion gwaethaf, maent yn arwain at golli bywyd. Pan fydd rhywun yn cael ei niweidio, mae sgil-ffeithiau enfawr iddyn nhw ac i'r rhai sydd wedi achosi'r niwed.
- Bydd sefyllfaoedd yn codi ble mae pryderon bod plentyn neu oedolyn yn cael ei niweidio y tu hwnt (y tu allan) i'ch gweithgarwch neu wasanaeth, gartref neu yn y gymuned, ond mae gan eich sefydliad yr wybodaeth hon. Gallai peidio â gweithredu ar yr wybodaeth hon wneud y gwahaniaeth rhwng rhywun yn dioddef niwed difrifol yn hytrach na chael ei ddiogelu.
- Pan fydd rhywun yn cael ei niweidio wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch neu wrth ddefnyddio gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan unigolyn, grŵp neu sefydliad, mae goblygiadau i'r rhai sy'n darparu'r gweithgareddau neu'r gwasanaethau hefyd. Gall hyn gynnwys effaith bersonol sefyllfa ofidus, sgil-ffeithiau o ran niwed i enw da ac yn yr achosion gwaethaf, gall arwain at erlyniad troseddol.
- Gall cael trefniadau diogelu syml ar waith atal pobl rhag dioddef niwed, amddiffyn pobl sy'n wynebu risg o gael eu niweidio a rhoi'r hyder i ddarparwyr gweithgareddau neu wasanaethau weithredu yn y ffordd gywir ac mewn modd diogel.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob unigolyn, grŵp a sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru ddilyn y cyngor a ddarperir yn y Cod Ymarfer Diogelu hwn.

E-bostiwch ni gydag unrhyw ymholiadau ac i roi gwybod i ni eich bod yn dilyn y cyngor hwn [diogeluaceirioli@llyw.cymru](mailto:diogeluaceirioli@llyw.cymru)

## **Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?**

Mae'r cyngor hwn ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru i'w cynorthwyo i ddeall y trefniadau diogelu y dylai fod ganddynt er mwyn gweithredu'n ddiogel ac i ddiogelu pob cyfranogwr.

Mae gweithgareddau a gwasanaethau yn cael eu cynnig o nifer o wahanol leoliadau, o gartref person, canolfan neu ofod cymunedol, mewn man agored neu gyhoeddus, ar-lein, o ofod mewn lleoliad busnes preifat, clwb chwaraeon neu addoldy. Gellir codi ffioedd neu beidio, a gall rhai gweithgareddau neu wasanaethau weithredu ar sail fasnachol.

Gallai hyn gynnwys un o'r gweithgareddau neu wasanaethau canlynol, er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

- Clybiau neu ddsbarthiadau celf, dawn, drama neu gerddoriaeth;
- Clybiau neu ddsbarthiadau chwaraeon neu ymarfer corff;
- Clybiau ieuencid;
- Sefydliadau neu glybiau mewn lifrai ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Rhaglenni neu ddsbarthiadau hyfforddiant neu ddysgu;
- Sesiynau gofal plant a sesiynau chwarae a/neu glybiau ar ôl ysgol sy'n gweithredu am lai na 2 awr neu sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd am resymau eraill;<sup>1</sup>
- Lleoliadau crefyddol sy'n cynnig addysg yn eu ffydd, eu diwylliant, neu eu testunau crefyddol eu hunain neu baratoad ar gyfer defodau a digwyddiadau bywyd;
- Grwpiau neu sesiynau diddordeb cymdeithasol;
- Gweithgarwch chwarae agored, grwpiau neu sesiynau gweithgarwch/diddordeb;
- Gweithgarwch chwarae, grwpiau neu sesiynau gweithgarwch/diddordeb dan do;
- Atyniadau a gweithgarwch twristiaeth a hamdden.

Mae pawb sy'n darparu'r mathau hyn o weithgareddau neu wasanaethau, boed ar sail fasnachol, fel cyflogaeth neu fel gwirfoddolwr, yn gwneud cyfraniad pwysig at les pobl yng Nghymru ac i gydlyniant cymunedol. Fel unigolyn neu sefydliad, mae gennych chi ac unrhyw staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda chi ddyletswydd gofal tuag at y bobl rydych chi'n darparu gweithgareddau neu wasanaethau ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu cymryd camau rhesymol i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a bod y camau cywir yn cael eu cymryd os yw person yn wynebu risg o niwed. Mae hyn yn cynnwys gweithredu ble mae gennych wybodaeth neu bryderon bod plentyn neu oedolyn sy'n mynychu gweithgarwch neu wasanaeth a ddarperir gennych yn cael ei niweidio gartref neu yn y gymuned. Bydd dilyn y Cod hwn yn eich helpu i sicrhau eich bod yn gwirio ac yn dangos eich bod yn cyflawni'r ddyletswydd honno.

---

<sup>1</sup> Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu'r amgylchiadau lle nad oes angen i ddarparwyr gofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd.

## 2. Gwneud trefniadau diogelu

Mae diogelu ac amddiffyn pobl yn gyfrifoldeb i bawb. Os ydych yn unigolyn, grŵp neu sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion, mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn deall y cyfrifoldebau hyn. Dylech hefyd wneud yn siŵr bod unrhyw un mewn swydd â thâl neu heb dâl sy'n helpu i ddarparu gweithgareddau neu wasanaethau yn cael eu cefnogi i ddeall pam mae diogelu yn bwysig a beth yw eu cyfrifoldebau.

Os ydych yn ystyried diogelu am y tro cyntaf, gall ymddangos yn frawychus, ond mae cymorth ar gael. Byddem yn eich annog i gael cyngor a chymorth gan y sefydliadau a'r cyrff lu a all eich helpu. Ewch i'r adran 'Cael gafael ar gyngor a chymorth' am wybodaeth.

### Polisi Diogelu

Mae Polisi Diogelu yn cefnogi unrhyw un sy'n ymwneud â darparu gweithgarwch neu wasanaeth i ddeall eu cyfrifoldebau i ddiogelu pobl, a'r camau y dylent eu cymryd os caiff rhywun ei niweidio wrth ymwneud â'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth neu os oes pryderon bod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg o niwed – naill ai yn ystod eu cysylltiad â'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth neu mewn sefyllfaoedd eraill yn eu bywyd. Golyga hyn efallai y byddwch yn gweld neu'n clywed rhywbeth sy'n gwneud i chi bryderu bod plentyn neu oedolyn yn cael ei niweidio gartref neu yn y gymuned. Gall rhywun sy'n defnyddio eich gweithgarwch neu wasanaeth ddatgelu (dweud) wrthyfch fod rhywun yn eu niweidio hefyd. Mae gennych gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw wybodaeth sydd gennych sy'n awgrymu y gallai plentyn neu oedolyn fod mewn perygl o niwed.

Dylai'r Polisi Diogelu gynnwys gwybodaeth am sut i adrodd am bryder diogelu i'r awdurdod lleol lle mae'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth yn digwydd, a/neu i'r heddlu ar 101. Os oes unrhyw un mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylai'r polisi nodi'r angen i gysylltu â'r heddlu drwy ffonio 999.

Os oes mwy nag un person yn ymwneud â darparu'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth, dylai'r Polisi Diogelu enwi un person i weithredu fel y Person Diogelu Dynodedig. Mae'r person hwn yn gweithredu fel y person/pwynt cyswllt enwebedig ar gyfer pryderon diogelu gan eraill. Mewn sefydliadau mwy, mae'n arfer da penodi rhywun i ddirprwyo ar ran y Person Diogelu Dynodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl eraill sy'n ymwneud â darparu'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth, y bobl sy'n defnyddio'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth a'u teuluoedd neu ofalwyr.

Dylech bennu dyddiad adolygu ar gyfer eich Polisi Diogelu a gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn y polisi yn gyfredol ac yn addas i'w diben.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn helpu pobl i ddeall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru. Gallwch eu gweld ar y rhyngwyd: [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#). Gallwch hefyd lawrlwytho'r gweithdrefnau i'ch ffôn symudol. Mae dolenni ar gyfer lawrlwytho'r Ap ar waelod tudalen lanio'r wefan yn y ddolen uchod.

Mae'n bwysig ceisio cyngor a chymorth gan y sefydliadau a'r cyrff a all helpu. Gweler yr adran 'Cael gafael ar gyngor a chymorth'.

## **Hyfforddiant Diogelu**

Mae'n arfer da i bawb sy'n ymwneud â darparu gweithgarwch neu wasanaeth ymgymryd â hyfforddiant diogelu sylfaenol. Bydd hyn yn helpu pobl i nodi arwyddion camdriniaeth, niwed neu esgeulustod a deall sut i weithredu pan fydd problem diogelu yn codi.

Os yw unigolyn yn cynnig gweithgarwch neu wasanaeth ar ei ben ei hun, neu os yw person yn cael ei enwi fel y Person Diogelu Dynodedig, mae'n hanfodol ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu priodol. Mae gan Gymru ddeddfwriaeth ddiogelu wahanol i Loegr, ac mae'n bwysig ymgymryd â hyfforddiant sy'n addas i bobl sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae angen i hyfforddiant diogelu fod yn berthnasol i Gymru ac yn gyfoes. Fodd bynnag, gall Byrddau Diogelu Rhanbarthol gynnig gwybodaeth am yr hyfforddiant diweddaraf a pherthnasol yn eich ardal. Mae hyfforddiant diogelu hefyd ar gael drwy'r sefydliadau a'r cyrff eraill a restrir yn yr adran 'Cael gafael ar gyngor a chymorth'.

### **[Dysgu: Cymraeg \(wales.nhs.uk\)](https://www.wales.nhs.uk)**

Mae modiwl hyfforddiant rhyngweithiol sy'n rhoi cyflwyniad i ddiogelu ar gael hefyd. Wedi'i ddatblygu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae'r modiwl wedi'i anelu'n bennaf at y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, ond mae hefyd yn addas i unrhyw un sy'n dymuno cael dealltwriaeth sylfaenol o ddiogelu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n awyddus i gael swydd yn y sector gofal yng Nghymru.

Mae'r modiwl wedi'i seilio ar Weithdrefnau Diogelu Cymru a lanswyd yn 2019 ac ar ôl ei gwblhau, byddwch yn gallu:

- egluro'r term 'diogelu'
- adnabod camdriniaeth, neu'r risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod pa gamau i'w cymryd os ydych yn dyst neu'n amau camdriniaeth, niwed neu esgeulustod, neu os bydd rhywun yn dweud wrthy ch eu bod nhw'n cael eu cam-drin
- dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r deddfau sy'n ymwneud â diogelu
- cydnabod bod dyletswydd arnoch i roi gwybod am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.

Bydd mwy o fodiwlau e-ddysgu ar bynciau eraill ar gael ar y platfform hwn. Cofiwch ddoed yn ôl i ddarganfod beth sy'n newydd.

## Rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl

Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i arferion diogelu da. Mae'n ofynnol rhannu gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, y cyfeirir atynt fel deddfwriaeth diogelu data'r DU. Mae'n bwysig deall y gofynion hyn wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol am bobl sy'n defnyddio gweithgareddau neu wasanaethau. Fodd bynnag, mae'n bwysig deall bod deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu rhannu gwybodaeth am ddiogelu ac na ddylid ei defnyddio fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd amserol ac effeithiol, mae'n bosibl y gwneir penderfyniadau am sut i ymateb heb wybodaeth hanfodol a gall hyn arwain at oblygiadau diogelu gwael.

[Rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl: taflen ffeithiau](#)

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae hwn yn wasanaeth i Gymru a Lloegr ar gyfer cyflogwyr a sefydliadau i wneud gwiriadau priodol ar ddarpar weithwyr a gwirfoddolwyr a fydd mewn cysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg fel rhan o'u gwaith. Gellir defnyddio [adnodd cymhwysedd](#) y gwasanaeth i ddarganfod pa rolau neu weithgarwch a allai fod yn gymwys i gael gwiriad DBS sylfaenol, safonol neu fanwl. Mae'r adnodd hwn ar gyfer sefydliadau ac elusennau (cwmnïau) sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru neu Loegr i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogi pobl.

Os ydych yn wirfoddolwr neu'n hunangyflogedig, a bod sefydliad yn prynu gwasanaethau gennych, mae'n bosibl y byddant yn gallu gwneud cais am wiriad DBS ar eich rhan.

[Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - GOV.UK](#)

Mae'n bwysig ystyried a yw'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn Weithgarwch a Reoleiddir, gan y bydd hyn yn golygu y gallwch wneud cais am wiriad DBS *manylach gyda gwiriad rhestr wahardd plant a/neu oedolion fel y bo'n berthnasol. Os oes gan eich sefydliad weithwyr neu wirfoddolwyr sydd mewn gweithgarwch a reoleiddir, mae gofyniad cyfreithiol i gyflwyno atgyfeiriad Gwahardd DBS pan fydd pryder wedi'i godi a bod y meini prawf perthnasol yn cael eu bodloni.*

Ceir rhagor o wybodaeth yma:

[Canllawiau DBS ar weithgarwch a reoleiddir, cymhwysedd ar gyfer gwiriadau DBS ac atgyfeiriadau Gwahardd](#)

Mae gweithwyr achos DBS yn gwneud penderfyniadau am bwy y dylid eu rhoi ar y rhestr gwahardd plant a/neu'r rhestr gwahardd oedolion ac sydd wedi'u hatal gan y gyfraith rhag gweithio gyda phlant neu grwpiau sy'n agored i niwed. Mae cyflogwr neu reolwr gwirfoddolwyr yn torri'r gyfraith os ydynt yn cyflogi'n fwriadol rywun mewn gweithgarwch a reoleiddir gyda grŵp o unigolion y maent wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda nhw. Mae unigolyn wedi'i wahardd yn torri'r gyfraith os yw'n ceisio, yn



cynnig neu'n mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir gyda grŵp o unigolion y mae wedi'i wahardd rhag gweithio gyda nhw.

[Canllawiau ar atgyfeirio i'r DBS - GOV.UK](#)

## **Swydd Gyfrifol**

Mae 'swydd gyfrifol' yn derm cyfreithiol sy'n cyfeirio at rolau a lleoliadau penodol lle mae oedolyn mewn cysylltiad rheolaidd ac uniongyrchol â phlant. Mae enghreifftiau o swyddi cyfrifol yn cynnwys athrawon, gweithwyr gofal, gweithwyr cyfiawnder ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol a meddygon.

Mae'n drosedd i rywun mewn swydd gyfrifol gael perthynas rywiol gyda phlentyn yn ei ofal, hyd yn oed os yw'r plentyn hwnnw dros oedran cydsynio (16 oed neu'n hŷn).

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyflwyno [Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#). Nod Adran 45 o'r Bil yw ehangu'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr i sicrhau na fydd hyfforddwyr chwaraeon ac arweinwyr ffydd yn gallu cael perthynas rywiol gyda phobl ifanc 16 ac 17 oed yn eu gofal.

## **Pryderon diogelu am y rhai sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn ffordd sy'n dod â nhw i gyswllt â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu ynghylch y rhai hynny y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gyswllt â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu ar gyfer plant neu unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt ac y mae eu gwaith cyflogedig neu eu gwaith gwirfoddol yn dod â nhw i gyswllt â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg.

Dilynwch y ddolen i ddysgu mwy: [Gofal Cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](#)

Os oes gennych bryderon am rywun sy'n gweithio, boed hynny'n gyflogedig neu'n wirfoddol, gyda phlant neu oedolion rhaid i chi roi gwybod am hyn i Wasanaethau Cymdeithasol fel pryder diogelu.

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i reoli honiadau a phryderon am unrhyw berson sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Rhaid i bob awdurdod lleol nodi uwch reolwr sy'n gyfrifol am ddelio â'r mathau hyn o honiadau. Gelwir yr unigolion hyn yn Swyddogion Dynodedig Awdurdodau Lleol (LADOs). Gallant ddirprwyo cyfrifoldeb i swyddogion yn yr awdurdod lleol a elwir yn Swyddogion Diogelu Dynodedig (DOS). Mae'r Swyddog Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am reoli'r holl honiadau a wneir yn erbyn staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg yn eu hardal.

## **Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel**

Os yw'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth a ddarperir yn cynnwys gwneud trefniadau i blant gymryd rhan mewn perfformiadau llwyfan, teledu, ffilm neu berfformiadau eraill,

gweithgarwch chwaraeon neu fodelu â thâl, rhaid i chi wneud cais am drwydded. Mae canllawiau i'r trefniadau ar gyfer trwyddedu perfformiad plant yn effeithiol, sy'n cael ei reoli gan awdurdodau lleol fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol, ar gael yma:

[Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: trwyddedau perfformio ar gyfer plant | LLYW.CYMRU](#)

## **Dyletswydd gofal ac iechyd a diogelwch**

Mae gan unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau neu wasanaethau ddyletswydd gofal cyfreithiol i wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i bobl ymweld â nhw neu fynychu heb ddod i niwed. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y lleoliad lle cynigir y gweithgarwch neu'r gwasanaeth yn addas i'r diben.

Mae ystod eang o faterion i'w hystyried, o a oes llawr gwlyb lle gallai rhywun lithro a syrthio i ystyried a yw unrhyw offer nwy neu drydanol yn bodloni safonau diogelwch. Os ydych yn llogi lleoliad neu'n rhentu adeilad, dylech wirio bod gan y person sy'n gyfrifol am yr adeilad gopi cyfredol o'u Polisi Iechyd a Diogelwch y gallant ei rannu gyda chi. Dylai pecyn Cymorth Cyntaf fod ar gael, a dylai rhywun sy'n ymwneud â darparu'r gweithgarwch neu'r gwasanaeth fod wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf. Mae hefyd yn bwysig cael cynlluniau ar waith ar gyfer beth i'w wneud os bydd tân a sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn hysbys i bawb.

Mae angen i chi feddwl am ba weithgareddau y bydd angen cwblhau ffurflenni cydsynio ymlaen llaw ar eu cyfer. Bydd hefyd yn ofynnol cynnal asesiad risg o rai gweithgareddau. Os nad ydych yn sicr, gofynnwch i'ch awdurdod lleol am gyngor.

Dylai fod gennych ddatganiad polisi iechyd a diogelwch fel man cychwyn i reoli iechyd a diogelwch yn y gweithle ac sy'n amlinellu sut ydych yn rheoli iechyd a diogelwch yn eich sefydliad. Dyma ddogfen unigryw sy'n dangos pwy sy'n gwneud beth, a sut a phryd y maent yn ei wneud. Os oes gennych bump neu fwy o weithwyr, bydd angen i chi gael datganiad polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig. Dylai nodi sut ydych yn rheoli iechyd a diogelwch yn eich sefydliad. Dengys y datganiad ysgrifenedig hwn o bolisi eich sefydliad a'r trefniadau ar gyfer ei weithredu a'i fonitro i'ch staff, ac unrhyw un arall, fod peryglon wedi'u nodi a'u hasesu o safbwynt risg, eu dileu neu eu rheoli. Pan fyddwch yn llunio neu'n adolygu eich polisi, dylech ei drafod â'ch gweithwyr a gwirfoddolwyr.

[Iechyd a Diogelwch - CGGC](#)

[HSE: Gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn y gwaith](#)

## **Rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiad**

Os yw eich sefydliad yn elusen gofrestrdedig, mae'n ofynnol rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol. Mae hyn yn ychwanegol i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu i Wasanaethau Cymdeithasol eich awdurdod lleol. Os bydd digwyddiad difrifol yn digwydd o fewn eich elusen, mae'n bwysig bod datgeliad prydlon, llawn a gonest i'r Comisiwn. Mae angen i chi roi gwybod am yr hyn a ddigwyddodd ac, yn bwysig, rhoi gwybod i'r Comisiwn sut rydych yn delio â'r

digwyddiad, hyd yn oed os ydych hefyd wedi rhoi gwybod i'r heddlu, cyfranwyr neu reoleiddiwr arall. Dylech roi gwybod am ddiwyddiad os yw'n arwain at, neu'n creu risg o:

- niwed arwyddocaol i bobl sy'n dod i gysylltiad â'ch elusen drwy ei gwaith, (gan gynnwys staff neu wirfoddolwyr)
- colli arian neu asedau arwyddocaol i'ch elusen
- difrod arwyddocaol i eiddo eich elusen
- niwed arwyddocaol i waith neu enw da eich elusen

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [Sut i roi gwybod am ddiwyddiad difrifol yn eich elusen – GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) [Y Comisiwn Elusennau](#)

### 3. Cael gafael ar gyngor a chymorth

Mae gwybodaeth a chyngor am arferion diogelu, gan gynnwys ffyrdd o gael gafael ar hyfforddiant diogelu priodol, ar gael.

Gallwch gysylltu â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru am wybodaeth a chyngor. Defnyddiwch adnodd [dod o hyd i'ch bwrdd rhanbarthol, Bwrdd Diogelu Cymru](#) neu sganiwch y cod QR isod gyda chamera ffôn symudol neu ddyfais.



<p><b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro</b></p> <p><a href="mailto:cardiffandvalersb@cardiff.gov.uk">cardiffandvalersb@cardiff.gov.uk</a></p> <p>Ffôn: 029 2233 0880 / 029 2233 0883</p> <p>Ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.</p>	<p><b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg</b></p> <p><a href="mailto:ctmsafeguarding@rctcbc.gov.uk">ctmsafeguarding@rctcbc.gov.uk</a></p> <p>Ffôn: 01443 490 122</p> <p>Ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.</p>
<p><b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent</b></p> <p><a href="mailto:Gwentsafeguarding@caerphilly.gov.uk">Gwentsafeguarding@caerphilly.gov.uk</a></p> <p>Ffôn: 01443 86 4373 / 4546 / 4670</p>	<p><b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru</b></p> <p><a href="mailto:cysur@pembrokeshire.gov.uk">cysur@pembrokeshire.gov.uk</a> (plant)</p>

Ar gyfer Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.	<a href="mailto:CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk">CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk</a> (oedolion)  Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.
<b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru</b>  E-bost: <a href="mailto:regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk">regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk</a>  Ffôn: 01824 712 903  Ar gyfer Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.	<b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg</b>  E-bost: <a href="mailto:wgsb@npt.gov.uk">wgsb@npt.gov.uk</a>  Ffôn: 01639 763 021  Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Yn ogystal, mae llawer o wahanol ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer mathau penodol o weithgarwch neu wasanaeth.

Mae CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) yn cefnogi sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n cynnig:

- Gwasanaeth ymholiadau am ddim sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth gyfrinachol gan ei Swyddog Diogelu.
- Gwybodaeth, arweiniad ac adnoddau am ddim ar ddiogelu.
- Cyflwyniadau, sesiynau gwybodaeth a chymorthfeydd i sefydliadau a'u haelodau.
- Amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys modiwlau ar-lein, gweminarau a chwrs hyfforddi wyneb yn wyneb rhithiol.
- Cymuned Ymarfer Diogelu i ddod ag ymarferwyr diogelu'r sector gwirfoddol at ei gilydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn [CGGC](#) a [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#)

Gallwch hefyd gysylltu â'i Swyddog Llywodraethu a Diogelu:

E-bost: [safeguarding@wcva.cymru](mailto:safeguarding@wcva.cymru)

Ffôn: 0300 111 0124

Mae gan **Chwaraeon Cymru** berthynas agos â'r NSPCC drwy'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (CPSU). Mae'r CPSU yn cael ei gomisiynu gan Chwaraeon Cymru i weithredu cyfres o safonau ar gyfer sefydliadau chwaraeon yng Nghymru.

Ariennir Ymddiriedolaeth Ann Craft gan Chwaraeon Cymru i gefnogi sefydliadau chwaraeon a gweithgareddau i ddatblygu arferion gorau o ran diogelu oedolion. Gall

Ymddiriedolaeth Ann Craft gefnogi sefydliadau chwaraeon drwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor ar bob lefel o sefydliad.

Mae CPSU Cymru wedi uno gydag Ymddiriedolaeth Ann Craft er mwyn creu Hwb Diogelu Chwaraeon Cymru. Mae'r Hwb yn ceisio sicrhau cynnydd mewn rhannu arferion gorau a dull mwy unedig o ddiogelu plant ac oedolion mewn chwaraeon. Bydd swyddogion yr hwb yn cydweithio'n agos i godi proffil diogelu yn y sector chwaraeon a gydag asiantaethau statudol, gan ddarparu dysgu, hyfforddiant a chefnogaeth a rennir.

Gallwch gysylltu â'r Hwb ar 029 2033 4975.

[Fframwaith ar gyfer diogelu plant mewn chwaraeon yng Nghymru | CPSU \(thecpsu.org.uk\)](http://thecpsu.org.uk)

[Cyngor a Hyfforddiant Diogelu Oedolion mewn Chwaraeon – ACT \(anncrafttrust.org\)](http://anncrafttrust.org)

Mae gan yr **Eglwys yng Nghymru** Dîm Diogelu y gellir cysylltu â nhw am gyngor a chymorth mewn perthynas â phryderon diogelu o fewn yr Eglwys yng Nghymru a chwestiynau sy'n ymwneud â pholisi a gweithdrefnau diogelu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr [Eglwys yng Nghymru](#)

Mae'r **Gwasanaeth Cyngori Catholig ar Ddiogelu (CSAS)** yn adrodd i'r Comisiwn Diogelu Catholig Cenedlaethol, ac yn rhoi cyngor arbenigol iddo, am bob mater diogelu. Mae CSAS yn darparu cymorth, cyngor a chydgylltu i'r wyth ar hugain o Gomisiynau Diogelu ledled Cymru a Lloegr a'u priod swyddfeydd diogelu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [CSAS – Gwasanaeth Cyngori Catholig Ar Ddiogelu](#)

**Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)** yw'r corff sy'n cynrychioli'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae ganddo aelodaeth o 130 o sefydliadau cysylltiedig, sydd wedi'u lleoli ledled y wlad. Mae'r sector wedi ymrwmo i ddarparu amgylcheddau pleserus a diogel i bob person ifanc. Mae'n hapus i dderbyn cyfrifoldeb dros ddiogelu lles pobl ifanc. Mae 'Diogelu mewn Lleoliad Gwaith Ieuenctid' yn fodiwl allweddol o '*Cam Tuag At Waith Ieuenctid*' (rhaglen hyfforddiant sefydlu CWVYS) sy'n darparu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i ddarparu gwasanaeth sy'n addas i'r diben. I gael gwybod mwy, cysylltwch â [catrin@cwvys.org.uk](mailto:catrin@cwvys.org.uk)

Mae **Play Wales/Chwarae Cymru** yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae, ac i hyrwyddo arfer da ar bob lefel o wneud penderfyniadau ac ym mhob man lle gallai plant chwarae. Mae'n darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn darparu ar gyfer chwarae plant neu sy'n gyfrifol amdano, fel y bydd Cymru un diwrnod yn fan lle rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn. [Play Wales | Chwarae Cymru](#)